Annwyl Aelodau

cc Staff Grwpiau a Staff Cymorth

## CRYNODEB O GYFARFOD Y BWRDD TALIADAU A GYNHALIWYD AR 29 a 30 TACHWEDD 2023

Cyfarfu Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ddydd Mercher a dydd Iau 29-30 Tachwedd, yn dilyn sesiynau galw heibio gydag Aelodau a chyfarfodydd gyda grwpiau cynrychioladol yr Aelodau a'r staff cymorth ar 29 Tachwedd.

Mae'r llythyr hwn yn rhoi crynodeb o brif drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Mae gwybodaeth am gyfarfodydd blaenorol y Bwrdd ar gael yma.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Aelodau, y Staff Cymorth a chynrychiolwyr undebau'r Staff Cymorth am eu parodrwydd bob amser i ymgysylltu â'r Bwrdd a'i waith. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Biliau Diwygio'r Senedd, ac mae'r Bwrdd wedi cyfarfod neu wedi cael trafodaethau adeiladol â thros 25 o Aelodau mewn gwahanol gyfarfodydd. Mae'r cyfoeth o wybodaeth a ddarparwyd i'r Bwrdd yn ystod ymweliadau diweddar aelodau'r Bwrdd â swyddfeydd yr Aelodau, cyfarfodydd Grŵp y Cynrychiolwyr ac mewn cyflwyniadau ysgrifenedig i'r Bwrdd wedi bod o gymorth mawr i lywio trafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

## Pecyn cymorth ariannol ar gyfer Staff Cymorth yr Aelodau

Ystyriodd y Bwrdd y pwysau ariannol y mae Staff Cymorth yn eu hwynebu oherwydd costau byw uchel parhaus. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd ac a ddarparwyd gan gynrychiolwyr undebau llafur y Staff Cymorth, a thrafodaethau ag Aelodau a Phenaethiaid Staff a chynrychiolwyr Staff ar sut yr oedd pwysau costau byw cyfredol wedi effeithio ar Staff Cymorth. Buom hefyd yn ystyried diweddariad manwl gan Wasanaeth Ymchwil Comisiwn y Senedd ar yr economi, gan gynnwys tystiolaeth gan Fanc Lloegr a dadansoddiad a rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar chwyddiant, chwyddiant craidd, prisiau ynni, cyfraddau llog a chyfraddau morgais. Clywodd y Bwrdd dystiolaeth hefyd am dueddiadau o ran cyflogau'r sector cyhoeddus a chyflogau cenedlaethol, y rhagolygon o ran cynnyrch domestig gros (GDP) a gwariant y sector cyhoeddus.

Daeth y Bwrdd i'r casgliad bod Staff Cymorth yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol oherwydd costau byw uchel, a chytunwyd ar becyn o gymorth ariannol fel y nodir isod.

Dim ond un penderfyniad y gall y Bwrdd ei wneud ar gyflogau Staff Cymorth fesul blwyddyn ariannol, oni bai bod y Bwrdd o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n gwneud penderfyniad pellach yn gyfiawn ac yn rhesymol. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i wneud penderfyniad eithriadol ar gyfer 2023-24 yn ymwneud â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ac mewn ymateb i bwysau Costau Byw, fel y nodir isod. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd wedi

ymgynghori â'r Prif Weithredwr a'r Clerc fel Swyddog Cyfrifo, fel sy'n ofynnol yn ôl y Penderfyniad. Caiff y Penderfyniad eithriadol ei osod yn y dyddiau nesaf.

Telir unrhyw gostau ychwanegol sy’n ymwneud â’r Cyflog Byw Gwirioneddol a’r Taliad Costau Byw yn 2023-24 drwy gronfeydd canolog, yn hytrach na thrwy gyllidebau staffio presennol yr Aelodau.

Darperir rhagor o fanylion ar sut y bydd y camau hyn yn cael eu rhoi ar waith ar-lein yn yr adran Cwestiynau Cyffredin.

## Cyflog Byw Gwirioneddol

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y dylid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf i'r holl Staff Cymorth. Am y tro cyntaf, yn dilyn adolygiad diweddar y Sefydliad Cyflog Byw, mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi rhagori ar Bwynt Cyflog 1 Band 3 ar gyfer Staff Cymorth.

Felly cytunodd y Bwrdd ar sawl mater i sicrhau bod staff yr effeithir arnynt yn cael eu talu’r Cyflog Byw Gwirioneddol o 1 Tachwedd:

- Darparu ar gyfer codiad dros dro i Bwynt Cyflog 1 Band 3 i lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol o 1 Rhagfyr 2023 hyd 31 Mawrth 2024. Mae hyn yn codi Pwynt Cyflog 1 Band 3 i £23,088. Bydd y newid hwn yn cael ei adlewyrchu yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt.
- Darparu ar gyfer taliad unwaith ac am byth i Staff Cymorth a dderbyniodd gyflog Pwynt Cyflog 1 Band 3 ym mis Tachwedd 2023, wedi’i gyfrifo’n unigol ar gyfer pob aelod o staff, sy’n hafal â’r gwahaniaeth rhwng y cyflog a dderbyniwyd ar gyfer Tachwedd 2023 a’r cyflog a fyddai wedi’i dderbyn pe bai’r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi’i gymhwyso o 1 Tachwedd 2023. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr. Effaith hyn yw y bydd staff yn derbyn taliadau fel pe baent yn cael eu talu ar lefel y Cyflog Byw Gwirioneddol o 1 Tachwedd.
- Byddai hwn yn drefniant dros dro tan 1 Ebrill 2024, pan fydd Pwynt Cyflog 1 ar Fand 3 yn symud i’r lefelau cyflog newydd arfaethedig ar gyfer 2024-25 (ble mae’r holl bwyntiau cyflog uwchlaw’r Cyflog Byw Gwirioneddol).
- Yn ymgynghori ar newid i'r Penderfyniad ar gyfer 2024-25 i sicrhau, pe bai adolygiad blynyddol o’r Cyflog Byw Gwirioneddol yn y dyfodol yn gweld cynnydd y Cyflog Byw uwchlaw'r pwynt cyflog isaf, y byddai'r pwynt cyflog yn addasu'n awtomatig i'r Cyflog Byw.

Mae’r penderfyniadau hyn yn galluogi’r Aelodau i dalu’r holl Staff Cymorth ar lefel sydd o leiaf yn unol â’r Cyflog Byw Gwirioneddol, heb achub y blaen ar unrhyw newidiadau ehangach i’r strwythur cyflogau a graddfeydd y gellid eu hargymell unwaith y bydd yr adolygiad parhaus o Gyflogau a Graddfeydd Staff yr Aelodau wedi dod i ben.

## Taliad costau byw

Cytunodd y Bwrdd i roi taliad o £600 i holl Staff Cymorth y Senedd ym mis Ionawr 2024, pro rata yn unol ag oriau gwaith contract, i helpu i dalu costau byw uwch.

Mae hwn yn rhan o’r £1,800 o daliadau costau byw yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys y ddau daliad pro rata blaenorol o £600 i Staff Cymorth ym mis Ionawr a mis Ebrill 2023. Cytunodd y Bwrdd yn flaenorol y byddai taliad mis Ebrill 2023 yn cael ei gyfuno â chyflogau Staff Cymorth o 1 Ebrill 2024.

Gwneir y taliad yng nghyflogau mis Ionawr (neu gellir ei wasgaru ar draws cyflog mis Ionawr, mis Chwefror a/neu fid Mawrth os gofynnir am hynny), ac ni chaiff ei gyfuno â chyflogau.

Ceir rhagor o fanylion am sut y caiff y camau hyn eu rhoi ar waith yn y Cwestiynau Cyffredin, lle bydd Staff Cymorth yn gallu cael manylion ynghylch sut y gallant wneud cais am drefniadau talu gwahanol.

**Codiadau cyflog ar gyfer 2024-25**

Yng ngoleuni’r pwysau ariannol a wynebir gan staff cymorth a’r sylwadau a gafwyd, cytunodd y Bwrdd i ymgynghori ar ddileu’r cap cyflog o 3% a chynyddu cyflogau’r holl Staff Cymorth 5.7% ar gyfer 2024-25, yn unol â’r cynnydd cyflog cyfartalog yng Nghymru yn ystod y 12 mis diwethaf (yn seiliedig ar ddata canolrifol yr Arolwg Blynyddol o Enillion Aelwydydd (ASHE), a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023). Gan gynnwys y cyfuniad y cytunwyd arno’n flaenorol o daliad costau byw o £600 mewn pwyntiau cyflog o 1 Ebrill ymlaen, byddai hyn yn godiad cyflog o rhwng 6.9% a 8.6%, yn dibynnu ar y pwynt cyflog.

Ynghyd â’r cynnydd arfaethedig hwn, byddai Staff Cymorth wedi cael codiad cyflog cyfansawdd yn ystod tymor y Chweched Senedd, sef rhwng 2021-25, o rhwng 18.4% a 20.5%, yn dibynnu ar bwyntiau cyflog (mae’n werth nodi, yn ystod yr un cyfnod, bydd staff y Comisiwn wedi cael cynnydd o 11.8%, yn seiliedig ar y dyfarniad cyflog a drafodir ar hyn o bryd).

Bydd y penderfyniad hwn yn destun ymgynghoriad ag Aelodau, Staff Cymorth, Comisiwn y Senedd a rhanddeiliaid eraill fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar y Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau ar gyfer 2024-25 (gweler isod). Gwneir penderfyniad terfynol ar y cynnydd i gyflogau Staff Cymorth gan y Bwrdd ym mis Chwefror 2024, yng ngoleuni’r ymatebion a geir i’r ymgynghoriad, ac a gaiff ei adlewyrchu yn y Penderfyniad ar gyfer 2024-25 sydd i’w gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.

## Adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau ar gyfer 2024-25

Cytunodd y Bwrdd hefyd ar nifer o newidiadau arfaethedig eraill i’r Penderfyniad, ar gyfer 2024-25, a fydd yn destun ymgynghoriad yn ystod mis Rhagfyr a mis Ionawr.

Bydd manylion llawn yr ymgynghoriad yn cael eu dosbarthu ddydd Gwener 15 Rhagfyr. Mae’r adolygiad blynyddol yn nodi cynnydd o 3% yng nghyflogau’r Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol, yn unol â’r terfyn uchaf, ac yn unol â phenderfyniad y Bwrdd ar gyfer y Chweched Senedd. Bydd y ddogfen ymgynghori'n nodi cynigion y Bwrdd i gynyddu uchafsymiau eraill y gall Aelodau eu hawlio ar gyfer eu costau busnes yn ôl ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Ionawr (y rhagolwg cyfredol yw oddeutu 5%).

Bydd yr adolygiad blynyddol hefyd yn cynnwys nifer o ddiwygiadau arfaethedig a fydd â’r nod o symleiddio'r Penderfyniad. Mae'r rhain wedi codi yn sgil ymgysylltiad y Bwrdd ag Aelodau a

Staff Cymorth, adborth gan y Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd a nifer a nodwyd drwy waith parhaus y Bwrdd i symleiddio'r Penderfyniad, o dan arweiniad Hugh Widdis. Mae llawer o'r cynigion hyn wedi'u cynllunio i roi rhagor o ddisgresiwn a hyblygrwydd i'r Aelodau, ac i leihau'r baich gweinyddol, er enghraifft, dileu'r gofyniad i Aelod ofyn am gytundeb ymlaen llaw gan Gomisiwn y Senedd cyn mynd i gostau am deithiau ac arosiadau dros nos y tu allan i ardal Caerdydd, o fewn y DU.

Bydd manylion llawn yr ymgynghoriad yn cael eu dosbarthu i'r Aelodau, Staff, Grwpiau, y Comisiwn a rhanddeiliaid eraill ddydd Gwener 15 Rhagfyr, a'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 26 Ionawr 2024.

## Diweddariad ar yr adolygiad o Bolisi Urddas a Pharch y Senedd

Bu'r Bwrdd yn ystyried canfyddiadau adolygiad y Comisiwn o Bolisi Urddas a Pharch y Senedd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn falch o nodi'r cynnydd sylweddol a wnaed i hyrwyddo urddas a pharch yn y Senedd ers cytuno ar y polisi yn 2018.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth gychwynnol i, a ddylai'r gweithdrefnau cwyno a disgyblu y mae wedi'u rhoi ar waith ar gyfer swyddfeydd yr Aelodau gael eu hadolygu yng ngoleuni canfyddiadau adolygiad y Comisiwn.

O ystyried ymgynghoriad parhaus y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, cytunodd y Bwrdd i ysgrifennu at y Pwyllgor i ofyn am ragor o ymgysylltu cyn penderfynu ar y camau nesaf ynghylch unrhyw adolygiad o'r gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

## Adolygiad Thematig o Gydnabyddiaeth Ariannol a Chefnogaeth Bersonol i'r Aelodau

Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am sawl adolygiad thematig (bydd y diweddariadau diweddaraf, gan gynnwys nodyn ar y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer gweithio gartref a gweithio hybrid, ar gael ar-lein yma yn fuan). Buom hefyd yn ystyried ein dull gweithredu, y cwmpas a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad thematig o'r Gydnabyddiaeth Ariannol a Chefnogaeth Bersonol i'r Aelodau, y byddaf fi yn ei arwain fel Cadeirydd y Bwrdd.

Dyma'r adolygiad thematig olaf i'w ddechrau, a bydd yn canolbwyntio ar dri maes, sef cyflog yr Aelodau, y Lwfans Gwariant Llety Preswyl, a Theithio, a'r darpariaethau sy'n ymwneud ag Aelodau'n gadael eu swyddi. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogaeth bersonol ar gyfer yr Aelodau gyda'r nod o hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb yn y Senedd newydd.

Bydd y Bwrdd yn casglu tystiolaeth gymharol ac yn ystyried methodolegau o seneddau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol, a bydd yn dymuno ymgysylltu'n helaeth ag Aelodau yn ystod 2024-25.

Mae cylch gorchwyl drafft yr adolygiad hwn i'w weld yn Atodiad A. Gwahoddir yr Aelodau a'r Staff Cymorth i ystyried y cylch gorchwyl hwn a rhoi adborth i'r Bwrdd erbyn 9 Chwefror 2024 drwy bwrddtaliadau@senedd.cymru.

Yn gywir,



**Dr Elizabeth Haywood**

**Cadeirydd Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Atodiad A

# Adolygiad thematig

# Taliadau a Chymorth Personol i’r Aelodau

# Cylch gorchwyl DRAFFT

**Rhagfyr 2023**

## Diben

1. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r cylch gorchwyl drafft ar gyfer yr Adolygiad Thematig o Daliadau a Chymorth Personol i’r Aelodau.

2. Mae’r Bwrdd yn cynnal ymgynghoriad ynghylch y cylch gorchwyl drafft a byddai’n croesawu sylwadau erbyn 9 Chwefror 2024 drwy taliadau@senedd.cymru.

## Amcanion

3. Bydd yr adolygiad yn ceisio sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd yn cyd-fynd â’r amcanion statudol a ganlyn:

- sicrhau bod y tâl a gaiff Aelodau o’r Senedd
    - yn adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y disgwylir iddynt eu cyflawni, a sicrhau
    - nad yw, am resymau ariannol, yn atal pobl sydd â’r ymrwymiad a’r gallu angenrheidiol rhag ymgeisio i gael eu hethol i’r Senedd,
- sicrhau bod gan Aelodau o'r Senedd adnoddau digonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau.

## Egwyddorion

4. Mae holl waith y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cael ei seilio ar gyfres o egwyddorion:

- Dylai'r cymorth ariannol a'r taliadau a roddir i'r Aelodau gefnogi diben strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau
- Rhaid i benderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru

- Rhaid i'r system cymorth ariannol i'r Aelodau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy ac yn gynhwysol, a rhaid iddi gynnig gwerth am arian i drethdalwyr.

## Cylch Gorchwyl

5. Bydd yr adolygiad yn ystyried cyflogau'r Aelodau, cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, cymorth personol, costau teithio a llety preswyl yr Aelodau, a chymorth i Aelodau sy'n gadael eu swydd. Er nad yw costau teithio a llety preswyl yn dâl nac yn gydnabyddiaeth ariannol, maent wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn gan eu bod yn helpu i gydbwyso ymrwymiadau personol ac ymrwymiadau gofalu'r Aelodau, lle bo hynny'n berthnasol, gan eu galluogi a'u cynorthwyo i ddiwallu eu hanghenion teithio a llety cysylltiedig â'u gwaith.

6. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth personol i'r Aelodau er mwyn ceisio lleihau rhwystrau, hyrwyddo hygyrchedd a hybu amrywiaeth a chydraddoldeb yn y Senedd newydd a sicrhau cyfnod pontio didrafferth i fywyd ar ôl y Senedd.

7. Bydd hefyd yn ystyried materion yn ymwneud â meysydd cymorth fel hyblygrwydd, niwtraliaeth garbon, a diogelwch a lles yr Aelodau.

8. Bydd yr adolygiad yn cael ei rannu'n dair ffrwd waith wahanol:

   - **Ffrwd waith un:** Tâl ac Amodau'r Aelodau (sy'n ymdrin â darpariaethau ym Mhennod 3 a 3A o'r Penderfyniad ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau)

   - **Ffrwd waith dau:** Llety Preswyl a Theithio (Penodau 4 a 5 o'r Penderfyniad)

   - **Ffrwd waith tri:** Aelodau sy'n gadael eu swyddi (Pennod 9 o'r Penderfyniad)

9. Wrth gynnal yr adolygiad, bydd y Bwrdd yn:

   - Ystyried unrhyw newidiadau i rolau a chyfrifoldebau'r Aelodau yn y Senedd yn ddiweddar
   - Ystyried goblygiadau diwygio'r Senedd o ran nifer yr Aelodau, eu cyfrifoldebau a'r amrywiaeth o 'ddeiliaid swyddi ychwanegol' a fydd yn gallu hawlio cyflog ychwanegol
   - Ceisio barn yr Aelodau am unrhyw newidiadau angenrheidiol i Benderfyniad y Seithfed Senedd
   - Ceisio barn y cyhoedd a rhanddeiliaid, casglu tystiolaeth gymharol ac ystyried methodolegau a ddefnyddir yn seneddau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.